## Crynodeb Gweithredol

### Cyd-destun

*Mae ein hadroddiad llawn ar gael yma* **ychwanegu** *Gweler yr adroddiad llawn am fanylion aelodaeth y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol (LOWG) a statws ein hadroddiad.*

Gweithgor annibynnol o arbenigwyr anllywodraethol ar hawliau dynol yw'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol (LOWG). Fe'i sefydlwyd i gynghori Llywodraeth Cymru ar opsiynau i ymgorffori (neu wreiddio) hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru drwy ddeddfwriaeth y Senedd. Mae'r gwaith hwn yn bwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (SAEHR) yn 2021. Argymhellodd yr adroddiad SAEHR y dylid gwneud hawliau dynol rhyngwladol yn rhan o gyfraith Cymru er mwyn i lys neu dribiwnlys allu eu gorfodi.

Gofynnodd y Gweinidogion i LOWG flaenoriaethu dau gytuniad y Cenhedloedd Unedig: y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl (CRDP).

Mae ein gwaith yn torri tir newydd. Fe wnaethom ddadansoddi CEDAW a CRDP yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru a'r uchelgais i ymgorffori'r cytuniadau hyn yng nghyfraith Cymru.

### Amcanion

Ein prif amcan oedd archwilio pa opsiynau sydd ar gael i roi CEDAW a CRDP ar waith yn gyfreithiol yng nghyfraith Cymru. Roeddem hefyd wedi ystyried y prif risgiau cyfreithiol ac ymarferol, y cyfaddawdau a'r dewisiadau dylunio sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Yn ddiweddarach, gofynnodd Gweinidogion i ni ystyried sut y gallai Cymru gryfhau ei gweithrediad fel bod hawliau dynol yn cael eu trosi'n bolisi a gwasanaethau. Gwnaethom hefyd edrych ar sut i wella mynediad at gyfiawnder ac atebion effeithiol a nodi camau gweithredu yn y dyfodol i gefnogi ac adeiladu ar y gwaith hwn.

## Dulliau

I arwain y gwaith hwn, datblygodd LOWG ddull strwythuredig gan ddefnyddio llenyddiaeth awdurdodol ar hawliau dynol, ar ymgorffori ac ar CEDAW a CRDP. Gwnaethom hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan arbenigwyr sy'n ymwneud â gwaith tebyg yn yr Alban. Bu'r wybodaeth hon helpu LOWG i ddatblygu dull a oedd yn cyfuno dadansoddiad strwythuredig â thrafodaeth a barn grŵp, wedi'i lywio gan brofiad ac arbenigedd eang ei aelodau. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, fe wnaethom fireinio ein dull gweithredu i adlewyrchu'r materion a oedd bwysicaf yng nghyd-destun Cymru.

Yn benodol, daeth cwestiynau ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ganolog i'n dadansoddiad o opsiynau deddfwriaethol. Felly, defnyddiwyd dull a oedd wedi'i strwythuro ac yn systematig, ond yn ddigon hyblyg i ymateb i'r cwestiynau cyfreithiol a pholisi penodol a oedd yn codi yn ystod bob rhan o'r gwaith.

Fel rhan o'n hasesiad o opsiynau i ymgorffori CEDAW a CRDP, gwnaethom edrych yn fanwl ar y materion a gedwir yn ôl a'r cyfyngiadau yn Atodlenni 7A a 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf Llywodraeth Cymru 2006), a'r goblygiadau y gallai'r rhain eu cael ar gymhwysedd y Senedd. Roedd hyn yn bwysig oherwydd, pe bai'r Senedd yn ceisio deddfu mewn unrhyw faes sy'n dod o dan fater a gedwir yn ôl neu gyfyngiad, gallai Llywodraeth y DU herio hyn, a byddai gan y Goruchaf Lys y pŵer i ddatgan bod unrhyw Fil arfaethedig yn anghyfreithlon.

Er mwyn archwilio sut gellid cryfhau gweithredu fel bod hawliau dynol yn trosi'n bolisi a gwasanaethau, fe wnaethom ddefnyddio argymhellion gan y Pwyllgor ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod a'r Pwyllgor ar Hawliau Pobl Anabl i nodi bylchau gweithredu a meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghymru. Gwnaethom hefyd archwilio polisïau, cynlluniau gweithredu a ffynonellau perthnasol eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru, i asesu cynnydd yng Nghymru yn erbyn yr argymhellion hynny.

### Prif Negeseuon ynghylch Ymgorffori

Mae LOWG yn ymwybodol iawn bod rhanddeiliaid yng Nghymru wedi bod yn galw am ymgorffori CEDAW a CRDP dros flynyddoedd lawer. Mae sefydliadau sy'n cynrychioli

menywod a phobl anabl wedi ceisio sicrhau bod y ddau cytuniad yn cael eu '**hymgorffori'n uniongyrchol**'. Byddai ymgorffori uniongyrchol yn golygu gwneud CEDAW a CRDP yn rhan o gyfraith Cymru heb fawr o newid. Yn ein barn ni, byddai'r math hwn o ymgorffori yn bodloni argymhelliad SAEHR orau, sef sicrhau bod llys neu dribiwnlys yn gallu gorfodi'r hawliau a nodir yn y cytuniadau hynny.

Edrychodd LOWG yn ofalus ar yr opsiwn o ymgorffori CEDAW a CRDP yn uniongyrchol. Roedd hyn yn gofyn am ddadansoddiad manwl o'r ddau gytuniad. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn glir ac yn gyson o'r archwiliad hwn yw bod yr hawliau sy'n cael eu gwarantu gan CEDAW a CRDP yn ymwneud â 'chyfle cyfartal', h.y. atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu yn erbyn menywod neu bobl anabl. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bod cyfle cyfartal yn 'fater a gedwir yn ôl' o dan Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a dim ond Senedd y DU sy'n gallu deddfu ar fater a gedwir yn ôl i Gymru. Gwelsom hefyd fod nifer o hawliau penodol sy'n cael eu gwarantu gan CEDAW a CRDP yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl neu gyfyngiadau eraill I lle mae Senedd Cymru yn cael ei hatal yn gyffredinol rhag gweithredu deddfwriaeth (e.e. cenedligrwydd, gwaith a chyflogaeth, a chaethwasiaeth fodern).

Felly, yn anffodus, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai ymgorffori CEDAW a/neu CRDP yn uniongyrchol drwy ddeddfwriaeth y Senedd yn ddull â risg, oherwydd gellid herio bod yr ymgorffori y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Yng ngoleuni'r uchod, fe wnaethom ystyried yn ofalus a ellid diwygio CEDAW a/neu CRDP, naill ai i ddileu deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw fater lle mae'r Senedd yn cael ei hatal rhag deddfu deddfwriaeth (h.y. mater a gedwir yn ôl neu fater cyfyngedig); neu i'w gyflwyno o fewn eithriad a allai roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Senedd. Yn anffodus, daethom i'r casgliad y byddai diwygio'r naill gytuniad neu'r llall yn debygol iawn o wanhau'r hawliau a'r amddiffyniadau yn y cytuniadau i raddau sylweddol.

Credwn hefyd fod cryn ansicrwydd ynghylch sut y gellid cymhwyso a dehongli materion a gedwir yn ôl neu eithriadau o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (yn enwedig gan y Goruchaf Lys). Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol o ran asesu cymhwysedd y Senedd i ddeddfu cyfreithiau a allai ymwneud â chyfle cyfartal.

Yng ngoleuni'r uchod i gyd, ac ar ôl llawer o bwyso a mesur, yn anffodus daethom i'r penderfyniad na allwn argymell ymgorffori'n uniongyrchol fel opsiwn i wreiddio CEDAW a CRDP yng nghyfraith Cymru.

Bu LOWG hefyd yn edrych ar yr opsiwn o wreiddio CEDAW a CRDP drwy '**ymgorffori anuniongyrchol'**, gan fabwysiadu dull 'sylw dyledus', fel y defnyddir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (Mesur Hawliau Plant), er enghraifft. Gwelsom fod yr opsiwn hwn yn debygol o fod â llai o risg yn perthyn iddo (h.y. yn llai agored i gael ei herio) nag ymgorffori uniongyrchol. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu peidio â'i argymell fel opsiwn i ymgorffori CEDAW a CRDP yng Nghymru. Y rheswm pennaf am hyn yw nad yw ymgorffori anuniongyrchol yn galluogi unigolion i orfodi eu hawliau'n uniongyrchol gerbron llys neu dribiwnlys. O ganlyniad, ni fyddai ymgorffori anuniongyrchol yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru na rhanddeiliaid i'w ymgorffori mewn ffordd a fyddai'n galluogi gorfodi.

*Yr hyn rydym yn ei argymell o ran ymgorffori*

Rydym yn cydnabod y gallai'r casgliad hwn, ac yn benodol ein hasesiad o ran ymgorffori uniongyrchol, siomi rhanddeiliaid sydd wedi dal yr uchelgais o hawliau dynol gorfodadwy i fenywod a phobl anabl yng Nghymru ers tro byd. Fodd bynnag, nid yw ein canfyddiadau'n diystyru'r uchelgais hwnnw. Yn ein barn ni, mae **dull gweithredu pwrpasol** yng Nghymru yn llwybr blaengar a chyraeddadwy i roi grym cyfreithiol i'r hawliau hynny yng nghyfraith Cymru.

Y llwybr rydym yn ei argymell yw Deddf Hawliau Dynol (Cymru) sy'n defnyddio CEDAW a CRDP, ac unrhyw gytuniad hawliau dynol perthnasol arall, i sefydlu hawliau sylfaenol pwrpasol i fenywod a phobl anabl. Rydym yn gweld y dull hwn fel ffordd i Gymru lywio drwy'r materion a gedwir yn ôl a'r cyfyngiadau sy'n rhwystr o'r fath rhag ymgorffori'n uniongyrchol. Byddai'n darparu llwybr i unigolion gael gafael ar rwymedïau gorfodadwy drwy gyflwyno gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â hawliau pwrpasol. Yn ein barn ni, byddai hefyd yn creu cyfle i ddatblygu hawliau sy'n cyd-fynd â chyd-destun Cymru ac sy'n adlewyrchu anghenion a buddiannau menywod a phobl anabl yng Nghymru, yn ogystal â hawliau newydd fel yr hawl i amgylchedd iach.

**Prif Negeseuon ynghylch Gweithredu**

Gwelsom fod Cymru eisoes yn gwneud llawer dros hawliau menywod, hawliau pobl anabl a meysydd hawliau dynol eraill. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng hawliau dynol a gweithredu bob amser yn weladwy, yn gyson nac yn cael ei olrhain. Yn ein barn ni, mae angen cydlynu, gwaith dilynol a phrosesau adrodd cryfach ar Gymru i sicrhau bod argymhellion gan gyrff monitro rhyngwladol yn cael eu trosglwyddo i bolisïau a gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Canfu ein gwaith bod gan Llywodraeth Cymru ystod eang o ddeddfwriaeth, strategaethau, canllawiau, cynlluniau gweithredu cydraddoldeb a rhaglenni wedi'u cyflawni sy'n ymddangos fel pe baent yn cyd-fynd ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Mae gan Gymru fframweithiau cyfreithiol hefyd (fel fframweithiau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chydraddoldeb) a allai helpu i gryfhau, cydlynu a chefnogi'r hawliau dynol newydd hyn.

Byddem yn rhybuddio bod yr agwedd hon ar ein gwaith wedi dod ar draws amrywiaeth sylweddol o ran y dystiolaeth oedd ar gael i ni ar draws meysydd polisi, gan gyflwyno lefel o ansicrwydd ynghylch pa bolisïau neu gamau gweithredu sydd ar y gweill, neu pa ganlyniadau maen nhw'n eu cyflawni.

Er bod meysydd lle byddem wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth, rydym yn hyderus mai un mater sy'n codi dro ar ôl tro yw'r bwlch rhwng argymhellion pwyllgorau a sut maen nhw'n cael eu troi'n gamau gweithredu, eu cydlynu a'u profi.

Ar draws y meysydd polisi a archwiliwyd gennym, mae'r berthynas rhwng gweithredu yng Nghymru a darpariaethau penodol y cytuniad, argymhellion pwyllgorau a chanllawiau deongliadol yn aml yn aneglur. Nododd ein dadansoddiad nifer o themâu cysylltiedig, sy'n cael eu crynhoi isod:

- Nid yw gweithredu'n gyson yn seiliedig ar safonau cytuniad: yn aml nid yw'n glir pa argymhellion sy'n cael sylw, pa dystiolaeth fydd yn dangos cynnydd, na sut bydd canlyniadau'n cael eu holrhain dros amser.

- Mae prif ffrydio a chapasiti yn afreolaidd ar draws portffolios. Mae hyn yn golygu bod safonau hawliau yn cael eu trin yn anghyson wrth ddylunio a darparu polisïau.
- Mae croestoriadedd yn cael ei gydnabod yn amlach nag y mae'n cael sylw mewn gwirionedd o ran mesurau wedi'u targedu, data wedi'i ddadgyfuno a mecanweithiau adrodd.
- Gall gweithredu a pharhad dros amser fod yn anwastad, er enghraifft mae rhai cynlluniau'n dod i ben heb unrhyw eglurder ynghylch beth sy'n digwydd nesaf.
- Mae bylchau yn y data y gellid eu defnyddio i olrhain, cydlynu a phrofi bod argymhellion yn cael eu gweithredu ar draws y llywodraeth, gan gynnwys dangos beth sydd wedi cael ei wneud, beth sydd ar ôl i'w wneud a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

Mae ein hargymhellion gweithredu, a nodir gennym isod, yn canolbwyntio ar gryfhau systemau a chydlynu ochr yn ochr â chreu cyfraith newydd, sy'n cael sylw drwy ymgorffori. Yr argymhelliad canolog yw sefydlu Mecanwaith Cenedlaethol i Gymru ar gyfer Gweithredu, Adrodd a Dilyn (NMIRF), ochr yn ochr â chynllunio cryfach i weithredu, prif ffrydio, cyflawni croestoriadol wedi'i dargedu, adnewyddu cynlluniau a meithrin gallu.

**Prif Negeseuon ynghylch Mynediad at Gyfiawnder**

Mae'n amlwg bod angen mwy na chydnabyddiaeth gyfreithiol o hawliau i gyflawni atebion effeithiol. Mae angen ffyrdd clir, fforddiadwy ac amserol ar bobl i gael cyfiawnder pan nad yw eu hawliau'n cael eu diwallu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mwy nag un ffordd o gael gafael ar atebion, gan sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd arnynt eu hangen i wneud hynny, gan gynnwys cyngor, eiriolaeth, ymwybyddiaeth a chymorth cyfreithiol.

Mae ein gwaith ar fynediad at gyfiawnder wedi gorfod ystyried rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pa mor bell y gall Cymru fynd i ddiwygio rhwymedïau barnwrol neu dribiwnlysoedd o fewn cymhwysedd datganoledig, a pha mor bell y gall deddfwriaeth Cymru fynd i'r afael â materion fel pwy all ddwyn hawliad, terfynau amser ar gyfer

hawliadau, a’r goblygiadau o ran adnoddau. Fodd bynnag, ein barn ni yw na ddylai’r materion hyn atal cynnydd o ran ein hawgrymiadau.

Mae adolygiad barnwrol yn *backstop* (trefniadau os metha popeth arall) pwysig ond cyfyngedig. Yn ymarferol, mae’n ddrud ac yn gymhleth; mae’r achosion yn gymharol brin ac mae toriadau i gymorth cyfreithiol yn gwneud adolygiad barnwrol yn ymarfer anodd i lawer o bobl (yn enwedig y rhai sydd â mynediad cyfyngedig at adnoddau ac arbenigedd). Felly, rydym yn dadlau dros lwybrau gorfodi penodol. Rydym yn awgrymu y gallai fframwaith hawliau Cymreig newydd nodi llwybrau at atebion sydd ar gael ar wyneb y ddeddfwriaeth. Gellid hefyd ystyried opsiynau fel creu hawliau i apelio, creu llwybrau unioni drwy dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a chryfhau llwybrau cyfiawnder gweinyddol.

Rydym hefyd o’r farn y byddai dyletswydd goruchwylio ar gyrff goruchwylio yng Nghymru (e.e. Ombwdsmon, Comisiynwyr Cymru), yn hyrwyddo atebolrwydd am hawliau Cymreig pwrpasol. Byddai gwell cydgysylltu rhwng y cyrff hynny’n gwella mynediad at gyfiawnder drwy leihau ffyrdd tameidiog a dryslyd i unigolion orfodi eu hawliau. Gallai hyn gynnwys dyletswyddau ymgynghori, memoranda cyd-ddealltwriaeth wedi’u diweddaru, a dyletswyddau posibl i gydweithio.

Rydym yn cyd-fynd â galwad SAEHR i gryfhau eiriolaeth a chyngor yng Nghymru ac i feithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd. Felly, rydym yn annog cymorth parhaus ar gyfer gwasanaethau eirioli a chynghori, ystyried hawliau statudol i eiriolaeth annibynnol, ac ymagweddau statudol posibl at gyngor lles cymdeithasol pan fydd y rhain o fewn cymhwysedd. Rydym hefyd yn cefnogi addysg gyfreithiol ac addysg gyfreithiol gyhoeddus i wella dealltwriaeth o gyfraith Cymru.

Os bydd Cymru’n cyflwyno Deddf Hawliau Dynol (Cymru), rydym yn gweld cyfle i gyflwyno Comisiwn Hawliau Dynol i Gymru, a fyddai’n gyfrifol am fonitro a gorfodi hawliau dynol yng Nghymru, gan weithredu ochr yn ochr â’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Dyma beth sy’n digwydd yn yr Alban.

**Camau Gweithredu yn y Dyfodol**

Yn ein barn ni, byddai penderfyniad i fwrw ymlaen â Bil Hawliau Dynol i Gymru yn galw am weithredu dilynol parhaus:

- Rydym wedi nodi'r angen am hawliau pwrpasol. Byddai hyn yn gofyn am broses gyfranogol i nodi pa hawliau y dylid eu cynnwys mewn Bil a sut y dylid eu geirio i adlewyrchu anghenion menywod a phobl anabl yng Nghymru. Credwn y gallai'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol (HRAG) ddarparu fforwm ar gyfer y gwaith hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol i gynnwys cymdeithas sifil yn y gwaith o fwrw ymlaen ag argymhellion SAEHR.
- Megis dechrau mae ein gwaith ar CEDAW a CRDP. Yn ein barn ni, mae lle i ystyried sut y gellid ymgorffori cytuniadau eraill (gan gynnwys y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil a hawliau economaidd-gymdeithasol ehangach o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol); ac i archwilio opsiynau i ddatblygu hawliau pwrpasol yn seiliedig ar Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Gwelwn hefyd gyfle i gryfhau'r amddiffyniad i hawliau plant dan y Mesur Hawliau Plant, o bosibl drwy ymestyn y ddyletswydd sylw dyledus i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau bod hawliau plant yn orfodadwy.
- Gwelwn hefyd yr angen i ddod i gonsensws ar safonau gofynnol i'w cymhwyso i unrhyw hawliau a warentir gan ddeddfwriaeth Cymru, ac i ddatblygu canllawiau a chynllun hawliau dynol i gefnogi dealltwriaeth a darpariaeth gyson gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Unwaith eto, gwelwn rôl i HRAG yn y prosiectau hyn.
- Un ystyriaeth allweddol yn ein hasesiad o opsiynau ar gyfer ymgorffori oedd y terfynau a osodwyd gan y setliad datganoli presennol. Rydym wedi rhoi blas ar y rhain uchod. Yn ein barn ni, mae'r setliad yn cyfyngu ar allu Cymru i gryfhau hawliau dynol, yn enwedig oherwydd y mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal. Rydym o'r farn bod Deddf Hawliau Dynol (Cymru) bwrpasol yn ffordd briodol a blaengar ymlaen o dan y setliad presennol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld

bod angen diwygio ehangach. Dylai hyn fynd i'r afael â'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal, ond hefyd y cyfyngiadau mewn meysydd pwysig eraill o hawliau dynol, gan gynnwys gwaith, nawdd cymdeithasol a mynediad at gyfiawnder. Yn ein barn ni, byddai hyn yn rhoi llawer mwy o ryddid i gynrychiolwyr etholedig Cymru gryfhau hawliau dynol pobl Cymru.

**Argymhellion**

Dylid darllen yr argymhellion hyn ochr yn ochr â'n hawgrymiadau ar Fynediad at Gyfiawnder a Chamau Gweithredu yn y Dyfodol (uchod).

*Ar ymgorffori*

- **Rydym yn argymell ymgorffori hawliau dynol mewn Bil Hawliau Dynol i Gymru, gan ddefnyddio'r gwarantau a'r amddiffyniadau a fynegir mewn cytuniadau rhyngwladol a'u teilwra'n fframwaith gyfreithiol o hawliau menywod a hawliau pobl anabl y gellir eu deddfu drwy ddeddfwriaeth y Senedd.**

*Ar Weithredu*

- **Sefydlu Mecanwaith Cenedlaethol i Gymru ar gyfer Gweithredu, Adrodd a Dilyn (NMIRF**) i gydlynu'r gwaith o weithredu cytuniadau ar draws y llywodraeth, cynnal cofnod byw o argymhellion a chamau gweithredu, a chefnogi adrodd tryloyw a chyfranogiad rhanddeiliaid.
- **Cryfhau'r gwaith cynllunio mewn perthynas â gweithredu ym maes hawliau dynol** drwy fapio camau gweithredu'n benodol i argymhellion pwyllgorau, gosod dangosyddion a thargedau canlyniadau, defnyddio asesiadau o'r effaith ar hawliau dynol, ac adrodd ar gynnydd fel mater o drefn.
- **Ymgorffori prif ffrydio hawliau dynol ar draws portffolios ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol** drwy ganllawiau ymarferol, hyfforddiant a disgwyliadau trawslywodraethol cliriach.

- **Cryfhau gweithredu croestoriadol** drwy symud o ymrwymiadau cyffredinol i fesurau a data wedi'u targedu sy'n gwneud grwpiau yr effeithir arnynt yn weladwy wrth gyflawni ac adrodd.
- **Sicrhau parhad cynlluniau gweithredu cydraddoldeb a'u bod yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd** fel nad ydynt yn llithro'n ôl heb drefniadau olynol, a gwella cydlyniad â rhwymedigaethau'r cytundeb lle bo hynny'n berthnasol.
- **Meithrin ymwybyddiaeth a chapasiti ar draws y llywodraeth** drwy gryfhau dealltwriaeth a gallu ymarferol ar draws adrannau, gan ddefnyddio canllawiau a hyfforddiant clir ar safonau hawliau dynol, rhwymedigaethau cytuniadau, argymhellion a rolau o ran gweithredu.